OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2006 Rhif 3383 (Cy.309)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Cynllun Traffordd yr M4 (Slipffyrdd Cyffordd 30 (Pen-twyn)) (Peri bod Ffordd yn dod yn Gefnffordd) 2006

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *18 Rhagfyr 2006* |
| *Yn dod i rym* | - - | *21 Rhagfyr 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef yr awdurdod priffyrdd ar gyfer traffordd yr M4 yng Nghymru, yn gwneud y Cynllun hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16 a 19 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**) a phob pwer galluogi arall(**2**):—

**1.** Mae'r darnau o'r ffordd arbennig bresennol a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r cynllun hwn ac a ddangosir â llinellau du trwm ar y plan a adneuwyd i ddod yn gefnffordd o'r dyddiad y daw'r Cynllun hwn i rym.

**2.** Yn y Cynllun hwn:—

(1) Mesurir pob mesur pellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

(2) ystyr "cefnffordd" ("*trunk road*") yw'r ffordd arbennig a grybwyllir yn erthygl 1 a'r Atodlen i'r Cynllun hwn;

(3) ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan a rifwyd HA16/1 NAFW 3, a elwir "Cynllun Traffordd yr M4 (Slipffyrdd Cyffordd 30 (Pen-twyn)) (Peri bod Ffordd yn dod yn Gefnffordd) 2006", a lofnodwyd drwy awdurdod y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau ac a adneuwyd yn Uned Storio ac Adfer Cofnodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd.

**3.** Daw'r Cynllun hwn i rym ar 21 Rhagfyr 2006 a'i enw fydd Cynllun Traffordd yr M4 (Slipffyrdd Cyffordd 30 (Pen-twyn)) (Peri bod Ffordd yn dod yn Gefnffordd) 2006.

(**1**) 1980 t.66
(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, mae'r pwerau hyn wedi'u rhoi bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran Cymru.

Llofnodwyd ar ran y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

*S C SHOULER*
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu
Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

18 Rhagfyr 2006

## YR ATODLEN

### Y DARNAU O FFORDD ARBENNIG SYDD I DDOD YN GEFNFFORDD

Y darnau o ffordd arbennig sydd i ddod yn gefnffordd o dan y Cynllun hwn yw:—

(i) y slipffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30 hyd at ei chyffordd â'r A4232 wrth Gyffordd 30, sef pellter o 270 metr ac y rhoddwyd y cyfeirnod 1 iddi ar y plan a adneuwyd.

(ii) y slipffordd ymuno tua'r dwyrain sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4232 wrth Gyffordd 30 i'w chyffordd â phrif gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain wrth Gyffordd 30, sef pellter o 370 metr ac y rhoddwyd y cyfeirnod 2 iddi ar y plan a adneuwyd.

(iii) y slipffordd ymadael tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30 hyd at ei chyffordd â'r A4232 wrth Gyffordd 30, sef pellter o 380 metr ac y rhoddwyd y cyfeirnod 3 iddi ar y plan a adneuwyd.

(iv) y slipffordd ymuno tua'r gorllewin sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r A4232 wrth Gyffordd 30 i'w chyffordd â phrif gerbytffordd y draffordd tua'r gorllewin wrth Gyffordd 30, sef pellter o 270 metr ac y rhoddwyd y cyfeirnod 4 iddi ar y plan a adneuwyd.